



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth Gyndriniaethol i Gleifion: Llawdriniaeth ar y Croen

Llawdriniaeth dan anesthetig lleol

Croeso i'r Adran ac i'r Ysbyty

Mae'r daflen hon yn egluro'r hyn y dylech ei ddisgwyl o'ch llawdriniaeth/triniaeth. Cyflawnir eich triniaeth neu'ch llawdriniaeth ar sail achos dydd (byddwch yn mynd adref yr un diwrnod).

Cyn eich apwyntiad

- Rhaid i chi drefnu bod rhywun yn eich gyrru adref ar ôl eich llawdriniaeth, yng nghwmni oedolyn cyfrifol. Bydd y person hwn yn bwynt cyswllt am 24 awr wedi'ch triniaeth.
- Rhaid bod ffôn ar gael ichi gartref, rhag ofn y cewch broblemau ar ôl ichi gael eich rhyddhau o'r ysbyty.
- Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, bydd angen bod rhywun ar gael i'ch helpu am y 24 awr gyntaf.
- Os byddwch yn teimlo'n anhwylyus y diwrnod cyn eich triniaeth, cysylltwch â'n hadran ni am gyngor cyn i chi ddod.
- Dewch â rhestr o unrhyw dabledi/meddyginiaeth rydych yn eu cymryd.
- Cymerwch eich tabledi/meddyginiaeth arferol oni ddywedir wrthy'ch fel arall ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.
- Rhowch wybod inni os ydych yn cymryd Warfarin neu feddyginiaethau eraill i deneuo'r gwaed cyn ichi ddod i mewn.
- Sicrhewch eich bod wedi bwyta ac yfed cyn dod.
- Peidiwch â gwisgo tlysau na cholur.

Yn ystod eich apwyntiad

- Bydd y llawfeddyg yn egluro'r driniaeth a sicrhau eich bod yn deall cyn llofnodi'r ffurflen gydsynio.
- Cewch gyfle i ofyn cwestiynau.
- Efallai y bydd gofyn ichi newid i wân ysbyty.
- Bydd y llawfeddyg yn rhoi pigiad i chi i sicrhau bod y rhan o'r corff sy'n cael ei drin yn ddideimlad.
- Byddwch ar ddihun drwy gydol eich llawdriniaeth.

Ar ôl eich llawdriniaeth

- Bydd y nyrs yn rhoi gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig ichi cyn ichi fynd adref.
- Byddwch yn derbyn apwyntiadau ar gyfer eich canlyniadau a thynnu unrhyw bwythau/clipiau/rhwymau.
- **Sylwer:** Weithiau gofynnir i gleifion ddychwelyd i'r clinig er mwyn monitro sut mae'r clwyf yn gwella dros nifer o wythnosau.

**Os cewch unrhyw broblemau, ffoniwch y rhif hwn:
01633 238372 rhwng 0900 a 1700**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**